# Eich helpu chi i gael mwy gan ScottishPower

## Gwybodaeth bwysig am ein gwasanaethau a diogelwch nwy yn eich cartref



ScottishPower

# Cyflawni dyfodol gwell, yn gyflymach

Yn ScottishPower, rydym yn ymdrechu i gyflawni dyfodol trydanol, glanach. Yr argyfwng hinsawdd yw un o faterion pwysicaf ein hoes, ac rydym wedi ymrwymo i helpu'r Deyrnas Unedig i leihau ei hallyriadau carbon a chyrraedd Sero Net erbyn 2050.

Ar draws popeth a wnawn – o'r ffermydd gwynt rydym yn eu datblygu, i'r rhwydweithiau rydym yn eu hadeiladu a'u cynnal, a'r gwasanaethau cwsmeriaid arloesol rydym yn eu darparu – mae ein nod yn syml: rydym eisiau cyflawni dyfodol gwell, yn gyflymach.

Ers dros 20 mlynedd, rydym wedi bod yn arloesi ynni gwynt ar y tir ac ar y môr ledled y Deyrnas Unedig. Ni oedd y cwmni ynni integredig cyntaf i gynhyrchu trydan gwyrdd 100%, a chredwn fod dyletswydd arnom i ddarparu dewisiadau ynni gwyrddach i chi ac i'r blaned.

Rydym hefyd yn gwybod, wrth i ni ymdrechu i leihau carbon a chyflawni dyfodol gwyrddach, mai dim ond y dechrau yw ynni glân. Dyna pam rydym yn cynnig cynhyrchion arloesol sy'n arbed ynni i'n cwsmeriaid a all helpu i leihau biliau dros amser. O'n gwefrwyr cerbydau trydan i baneli solar a phympiau gwres, gall cwsmeriaid wneud dewisiadau gwyrddach ar gyfer eu cartref a'r blaned.






# Gallwch reoli'ch cyfrif yn rhwydd ar-lein

Gallwch reoli eich ynni'n rhwydd trwy fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein yn **scottishpower.co.uk/login**

Os nad oes gennych gyfrif eto, cofrestrwch heddiw yn **scottishpower.co.uk/register** Pan fyddwch wedi mewngofnodi, gallwch reoli eich cyfrif mewn ychydig o gliciau.

**Gallwch reoli'ch cyfrif yn haws gydag Ap ScottishPower**
Gydag Ap ScottishPower, gallwch reoli'ch cyfrif p'un a ydych gartref neu allan. Lawrlwythwch yr ap am ddim o'r App Store neu Google Play a mewngofnodwch.

## Pethau y gallwch eu gwneud yn eich cyfrif ar-lein neu yn Ap ScottishPower



**Rheoli eich taliadau**
Gallwch dalu'ch bil yn ddiogel, olrhain eich defnydd o ynni a gwneud yn siŵr bod eich taliadau misol yn ddigon i dalu am eich ynni gyda'n hofferyn Rheolwr Debyd Uniongyrchol. Gallwch hefyd roi darlleniadau mesurydd er mwyn osgoi biliau amcangyfrifedig. I weld crynodeb syml o'ch biliau a'ch taliadau diweddaraf, ewch i **scottishpower.co.uk/simplebill**

**Dewis eich tariff**
Dewch o hyd i'r fargen orau i chi gan ddefnyddio ein dewisydd tariff.

**Sgwrsio â ni**
Un o'r ffyrdd cyflymaf o gysylltu â ni yw trwy ein swyddogaeth sgwrsio ar-lein. Gallwch weld cyfathrebiadau gennym unrhyw bryd yn 'Eich Mewnflwch', felly ni fydd angen i chi fyth boeni am eu colli.

**Dewis mynd yn ddi-bapur**
Newidiwch eich gosodiadau i 'ddi-bapur' yn eich dewisiadau cysylltu i gael eich biliau a gwybodaeth am eich cyfrif trwy e-bost yn lle drwy'r post. Bydd yn creu llai o annibendod i chi, a bydd yn well i'r blaned.

# Helpu i wneud i'ch ynni fynd ymhellach

Rydym yn deall bod aros yn gynnes ac yn gyfforddus ar yr un pryd â chadw eich costau ynni'n fforddiadwy yn gallu bod yn heriol. Gan ein bod ni'n cyflenwi ynni i chi, rydym eisiau helpu.

## Awgrymiadau i arbed ynni

Fe allai fod yn haws arbed ynni yn eich cartref nag y dychmygwch. Gallai rhai newidiadau bach, hyd yn oed, eich helpu i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon a lleihau eich biliau ynni.

**Mae'r modd segur yn ddrutach nag y meddyliwch**

Efallai nad yw gadael un neu ddwy ddyfais ymlaen wrth y plwg yn ymddangos yn beth mawr, ond mae'n cronni'n gyflym. Rhowch y gorau i adael pethau yn y modd segur a chofiwch ddiffodd eich dyfeisiau o'r modd segur os nad ydych yn eu defnyddio.

**Byddwch yn graff yn y gegin**

Y tegell yw un o'r dyfeisiau a ddefnyddir fwyaf yn y gegin. Ceisiwch osgoi gorlenwi'r tegell – bydd dim ond ychwanegu faint o ddŵr y mae arnoch ei angen yn arbed ynni.

**Peidiwch ag anghofio... treuliwch lai o amser yn y gawod**

Bydd treulio 4 munud yn y gawod yn eich helpu i leihau eich biliau ynni.

**Mae inswleiddio'n bwysig**

Mae inswleiddio'ch tanc dŵr, pibellau a rheiddiaduron yn ffordd gyflym a hawdd o arbed arian ar eich biliau.

Mae'r awgrymiadau hyn yn dod o wefan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (**energysavingtrust.org.uk/hub/quick-tips-to-save-energy**) ac maen nhw'n adlewyrchu defnydd cyffredin o ynni.

## Cadw'r gwres i mewn

Os nad yw'ch cartref wedi'i inswleiddio'n iawn, fe allech fod yn gwastraffu ynni bob tro y trowch y gwres ymlaen.

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau a ble rydych yn byw, mae'n bosibl y bydd gennych hawl i gael cymorth ariannol tuag at gost inswleiddio a gwelliannau gwresogi yn eich cartref. I gael gwybod a ydych yn gymwys, cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni:

- Yn Lloegr, ffoniwch **0800 098 7950**
- Yng Nghymru, ffoniwch **0808 808 2244**
- Yn yr Alban, ffoniwch **0808 808 2282**
- Gallwch wneud hyn ar-lein yn **energysavingtrust.org.uk**

Hefyd, bydd pawb sy'n berchen ar gartref yn y Deyrnas Unedig ac sy'n gosod deunyddiau effeithlon o ran ynni yn talu 0% TAW tan 31 Mawrth 2027, fel yr amlinellwyd yn Natganiad y Gwanwyn 2022 llywodraeth y Deyrnas Unedig.



# Ynni mwy deallus

Gall mesuryddion deallus ei gwneud yn haws i chi weld arbedion ynni a lleihau eich biliau ynni. Maen nhw hefyd yn gweithio gyda Sgrîn Arddangos yn y Cartref ddefnyddiol sy'n aros ar eich wyneb gweithio ac yn gallu eich helpu i olrhain eich ynni bob dydd.

Mae mesuryddion deallus hefyd yn anfon eich darlleniadau mesurydd atom yn awtomatig*, felly ni fydd angen i chi wneud hynny. Gallwch ddewis i'ch mesurydd deallus anfon darlleniadau mesurydd atom bob hanner awr, bob dydd, neu bob mis. Os dewiswch bob hanner awr, gallwch ddefnyddio'r offeryn Energy Insights yn yr ap; mae'n gweithio gyda'ch data bob hanner awr i roi dealltwriaeth ddyfnach o sut mae ynni'n cael ei ddefnyddio yn eich cartref, gan eich helpu i wneud rhai newidiadau gwybodus a allai arbed ynni ac arian i chi.

Gyda'ch Sgrîn Arddangos yn y Cartref, gallwch:

- Olrhain eich defnydd o ynni mewn amser real, fwy neu lai†
- Gweld faint yn union rydych yn ei wario mewn punnoedd a cheiniogau
- Deall beth rydych yn gwario arian arno, fel y gallwch leihau unrhyw ddefnydd diangen o ynni.

Gallwch drefnu apwyntiad gosod heddiw yn **scottishpower.co.uk/booksmart**

## Buddsoddi mewn cartref gwyrddach

Rydym ni yma i'ch helpu i wneud dewisiadau ynni gwyrddach a mwy deallus nawr a fydd yn well i'ch cartref ac a allai helpu i leihau eich costau ynni am flynyddoedd i ddod ac ychwanegu gwerth at eich cartref.

- Gallai cynhyrchu eich trydan gwyrdd eich hun gyda'n paneli solar leihau eich biliau ynni
- Ffordd wyrddach a glanach o wresogi'ch cartref gyda'n pympiau gwres ffynhonnell aer
- Pwynt gwefru trydan heb orfod ciwio – gwefru cyflym a chyfleus yn y cartref gyda'n gwefrwyr cerbydau trydan.

Datrysiadau ynni sy'n gweithio i chi ac i'r blaned. I gael rhagor o fanylion, ewch **scottishpower.co.uk/smart-living/product-hub**



*Mae'n bosibl y bydd adegau pan na allwn gyfathrebu â'ch mesurydd a byddai angen i ni ddibynnu ar amcangyfrif.
† O fewn 30-60 munud o ddefnyddio ynni.

# Cadw eich ynni'n ddiogel

Darllenwch y wybodaeth isod i sicrhau bod eich dyfeisiau nwy yn ddiogel ac yn gweithio'n dda.

## Archwiliadau diogelwch nwy

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn cynghori pob defnyddiwr nwy i drefnu bod peiriannydd sydd ar y gofrestr Diogelwch Nwy yn archwilio diogelwch eu dyfeisiau a'u ffitiadau nwy bob blwyddyn.

Rydym yn cynnig archwiliad diogelwch nwy blynyddol rhad ac am ddim i'n cwsmeriaid cymwys sydd ar y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol ar gais. I gael gwybod a ydych yn gymwys, ewch i **scottishpower.co.uk/psr**

Os ydych yn rhentu eiddo, mae eich landlord yn gyfrifol am drefnu archwiliad diogelwch nwy blynyddol.

## Dyfeisiau nwy anniogel

Os bydd y peiriannydd yn canfod bod dyfais yn beryglus yn ystod archwiliad diogelwch nwy, bydd yn gofyn am eich caniatâd i wneud y gosodiad yn ddiogel trwy ddatgysylltu neu ddiffodd y cyflenwad nwy neu'r ddyfais. Ni fydd modd ei defnyddio tan iddi gael ei hatgyweirio neu ei hamnewid ac nad yw'n achosi unrhyw berygl mwyach. Os bydd hyn yn digwydd ac mae arnoch angen cymorth, gallwch ffonio rhif ymholiadau'r Gofrestr Diogelwch Nwy ar **0800 408 5500** (9am-5.30pm o ddydd Llun i ddydd Iau, a 9am-5pm ar ddydd Gwener). Fel arall, ewch i **gassaferegister.co.uk**

## Gwiriadau diogelwch pwysig

### Peidiwch byth â:

- defnyddio dyfais nwy os ydych yn credu nad yw'n gweithio'n iawn
- gorchuddio dyfais neu rwystro'r awyrellau darfudo
- atal neu rwystro unrhyw ddellt awyru sefydlog, brics aer neu ffliwiau allanol.

### Arwyddion rhybudd

Gallai'r canlynol fod yn arwyddion efallai nad yw'ch dyfais nwy yn gweithio'n iawn:

- fflamau melyn neu oren (ac eithrio mewn tanau sy'n rhoi effaith tanwydd)
- staeniau huddyglyd neu farciau llosg ar ddyfeisiau nwy neu o'u hamgylch
- golau peilot sy'n diffodd yn aml.



## Gwarchod rhag carbon monocsid

Ni allwch ei weld, ei arogleuo na'i flasu, ond gall nwy carbon monocsid ladd neu anafu'n ddifrifol mewn ychydig oriau. Yn y cartref, gall nwy carbon monocsid gael ei gynhyrchu gan offer nwy diffygiol. Mae symptomau gwenwyn carbon monocsid yn gallu cael eu camgymryd yn aml am y ffliw neu wenwyn bwyd, ac fe allent gynnwys pob un neu unrhyw un o'r canlynol:

- cur pen sy'n digwydd yn fynych
- cyfog, teimlo'n sâl neu boen yn y stumog
- pendro
- blinder neu deimlo'n gysglyd
- poenau yn y frest
- problemau â'r golwg.

## Argyfyngau nwy

Os ydych yn dioddef unrhyw un o'r symptomau uchod neu os ydych yn arogleuo nwy neu'n amau bod nwy yn dianc, gwnewch y canlynol:

- diffoddwch y cyflenwad nwy wrth falf reoli argyfwng y mesurydd, oni bai bod y mesurydd wedi'i leoli yn y seler/yr islawr (gallai agor y drws eich llethu â nwy)
- diffoddwch y ddyfais a pheidiwch â'i defnyddio eto nes bod peiriannydd sydd ar y gofrestr Diogelwch Nwy wedi'i harchwilio
- diffoddwch bob fflam noeth a pheidiwch â gweithredu switshis trydanol (gan gynnwys troi switshis golau ymlaen neu i ffwrdd)
- ewch i gael awyr iach ar unwaith, ac agorwch yr holl ddrysau a ffenestri i awyru'r eiddo.

Os oes perygl uniongyrchol, ffoniwch y rhif Argyfwng Nwy Cenedlaethol 24 awr ar **0800 111 999.**

Gall gosod larwm carbon monocsid clywadwy, sy'n cydymffurfio â safon ddiogelwch Brydeinig neu Ewropeaidd berthnasol, leihau perygl marwolaethau ac anafiadau a achosir gan wenwyn carbon monocsid. I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ynglŷn â pheryglon gwenwyn carbon monocsid, a larymau clywadwy addas, ewch i **energy-uk.org.uk/customers/carbon-monoxide**



# Ein hymrwymiad i chi

Yn ScottishPower, rydym ni'n credu mewn trin cwsmeriaid yn deg. Mae hyn yn golygu gwrando ar ein cwsmeriaid, fel y gallwn ddarparu'r hyn maen nhw ei angen ac yn ei ddisgwyl. Ar sail eu hadborth, rydym wedi amlygu'r gwerthoedd allweddol maen nhw'n eu disgwyl gennym. Mae'r rhain yn cynnwys bod yn hawdd delio ag ef ac yn gyflenwr y gallant ymddiried ynddo; bod yno pan fydd angen a bod yn deg; bod yn gymdeithasol gyfrifol gan ddarparu gwerth am arian. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **scottishpower.co.uk/treating-customers-fairly**

## Cael pethau'n iawn

Ceisiwn roi'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. Ond os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, byddwn yn ymchwilio ac yn gweithio i unioni'r sefyllfa. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn ymdrin â chwynion, a manylion llawn ein Gweithdrefn Ymdrin â Chwynion, ewch i **scottishpower.co.uk/complaints**

Os nad yw'ch cwyn yn cael ei datrys o fewn 8 wythnos o'r dyddiad y derbyniwn y gŵyn, neu os ydych yn derbyn ein llythyr ymateb terfynol ac yn parhau i fod yn anfodlon, gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Ynni annibynnol ar **0330 440 1624** neu drwy fynd i **energyombudsman.org**

## Ein Siarteri Cwsmeriaid

Rydym wedi cynhyrchu cyfres o Siarteri Cwsmeriaid, sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi ac yn amlinellu ein rhwymedigaethau i chi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Eich bil nwy a thrydan
- Cwsmeriaid sydd angen cymorth ychwanegol
- Mesuryddion rhagdalu ("Talu Wrth Ddefnyddio")
- Gweithdrefn ymdrin â chwynion
- Ymweld â'ch cartref
- Gwres heb boeni.

Gallwch weld a lawrlwytho'r rhain trwy fynd i **scottishpower.co.uk/customer-charters**





# Angen cymorth ychwanegol?

## Ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol

Rydym eisiau rhoi cymaint o gymorth â phosibl i'r cwsmeriaid hynny y mae arnynt ei angen. Fe allech fod yn gymwys i ymuno â'n Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol am nifer o resymau, yn amrywio o salwch cronig neu anabledd i newid i'ch amgylchiadau personol. Os deuwn i wybod y byddech chi (neu rywun yn eich cartref) yn elwa o unrhyw un o'n gwasanaethau blaenoriaethol, byddwn yn cynnig eich ychwanegu at ein Cofrestr, sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau heb dâl ychwanegol i'ch helpu i reoli eich cyfrif ynni. Fel arall, rhowch wybod i ni os ydych yn credu eich bod yn gymwys. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **scottishpower.co.uk/psr**

## Mae gwasanaethau blaenoriaethol yn cynnwys:

- Gwasanaeth Cyfrinair – gallwn ddal cyfrinair personol yn ddiogel ar ein system i'n cynrychiolwyr ei ddyfynnu pan fyddant yn ymweld â chi
- Cynllun Unigolyn Enwebedig – gallwch enwebu unigolyn arall, fel perthynas neu ffrind, i dderbyn biliau a chyfathrebiadau eraill ar eich rhan
- Cyngor ar reolaethau arbennig ar gyfer eich dyfeisiau nwy neu drydanol
- Archwiliad diogelwch nwy blynyddol am ddim – efallai byddwch yn gymwys i gael archwiliad diogelwch nwy blynyddol am ddim. Mae meini prawf cymhwysedd ychwanegol yn berthnasol, felly ewch i **scottishpower.co.uk/psr** i gael rhagor o wybodaeth
- Gwasanaeth darllen mesurydd, sydd ar gael pan na fyddwch chi nac unrhyw aelod arall o'ch cartref yn gallu darllen eich mesurydd(ion)
- Ymweliadau gan Swyddog Cyswllt Cymunedol – gallwn drefnu i un o'n Swyddogion Cyswllt Cymunedol ymweld â'ch cartref, i drafod eich anghenion a chynnig cymorth, cyngor a chefnogaeth
- Gwasanaeth cyfieithu os ydych yn cael trafferth ymgysylltu â ni yn Saesneg. Mae'n caniatáu i chi drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'ch cyfrif ynni yn ddiogel, ac yn glir, trwy gyfieithydd
- Cyflenwad trydan parhaus - os oes gennych offer meddygol hanfodol sy'n dibynnu ar drydan, byddwn yn rhoi gwybod i'r dosbarthwr trydan i sicrhau eich bod yn cael gwybod am unrhyw amhariad ar eich cyflenwad. Bydd hyn yn rhoi amser i chi wneud trefniadau eraill ac yn caniatáu iddyn nhw roi blaenoriaeth i ailgysylltu eich cyflenwad os bydd toriad pŵer annisgwyl.

Os hoffech drefnu unrhyw un o'r gwasanaethau hyn neu ofyn i ni am unrhyw agwedd ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol, gallwch gysylltu â ni ar **scottishpower.co.uk/psr**

Efallai bydd eich cwmni dŵr yn gallu cynnig amrywiaeth o wasanaethau ychwanegol a allai helpu. Gallwch gael gwybod mwy yn **ofwat.gov.uk** neu drwy gysylltu â'ch cwmni dŵr yn uniongyrchol.

# Cymorth ariannol

Rydym yn deall ei bod yn adeg heriol i lawer o aelwydydd. Os oes arnoch angen cymorth ychwanegol i dalu eich biliau ynni, gall ScottishPower a sefydliadau eraill helpu mewn sawl ffordd:

## Elusen Ddyled StepChange

I gael cyngor annibynnol ac am ddim ar ddyledion, gallwch gysylltu ag Elusen Ddyled StepChange ar **0800 138 1111** (8am-8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am-4pm ar ddydd Sadwrn) neu fynd i **stepchange.org**. Gallant eich helpu i lunio cyllideb yn seiliedig ar eich incwm, faint y mae angen i chi ei wario a faint sydd gennych ar ôl i dalu eich dyledion. Bydd yn ddefnyddiol os oes gennych nodyn wrth law o'ch arian sy'n dod i mewn ac yn mynd allan. Yna, gallwn drafod dull ad-dalu gyda chi yn seiliedig ar eu cyngor.

## MoneyHelper

Mae'r gwasanaeth MoneyHelper yn cynnig cyngor diduedd ac am ddim ar feysydd fel cyllidebu a gwirio beth sydd gennych hawl iddo i helpu i wella'ch sefyllfa ariannol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **moneyhelper.org.uk/en**

## Cronfa Galedi ScottishPower

Os ydych ar incwm is ac yn cael trafferth talu eich biliau ynni, fe allech fod yn gymwys ar gyfer ein Cronfa Galedi. Gallwch wneud cais trwy ffonio'r Elusen Ddyled StepChange neu unrhyw asiantaeth arall gydnabyddedig sy'n rhoi cyngor ar ddyledion. Byddan nhw'n rhoi rhagor o fanylion am Gronfa Galedi ScottishPower* ac yn cynghori a ddylech wneud cais i Sigma Connected Support, sy'n gweinyddu'r Gronfa ar ran ScottishPower. Yna, dylech wneud cais i Gronfa Galedi ScottishPower ar-lein yn **scottishpower.co.uk/fund** neu drwy ffonio **0121 285 2595** (8am-5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener). Os ydych yn gymwys, byddwn yn clirio balans eich dyled yn llwyr neu'n rhannol. Mae hyn hefyd yn berthnasol os oes gennych fesurydd rhagdalu.

*Mae Telerau ac Amodau yn berthnasol

## Taliad Tanwydd Gaeaf

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael yr holl gymorth y mae gennych hawl iddo. Mae'r Taliad Tanwydd Gaeaf yn daliad di-dreth blynyddol i'ch helpu gyda chostau gwresogi yn ystod y misoedd oerach. Os cawsoch eich geni ar neu cyn 26 Medi 1955, fe allech fod yn gymwys i gael taliad o rhwng £100 a £300. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.gov.uk/winter-fuel-payment**

VULNERABILITY COMMITMENT MEMBER 2023

Rydym yn aelodau sefydlol o Ymrwymiad Bregusrwydd Energy UK, sy'n ceisio rhoi cymorth penodol i aelwydydd agored i niwed.

# Cymorth gyda phroblem ynni

## Os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr

Os ydych chi'n cael trafferth talu eich bil ynni neu os oes gennych chi broblem ynni, cysylltwch â Chyngor ar Bopeth. Nhw yw'r ffynhonnell swyddogol ar gyfer cyngor a chefnogaeth ynni annibynnol am ddim.

**Gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth**

Ffoniwch:
**0808 223 1133**

Relay UK:
**18001 ac yna 0808 223 1133**

I siarad â chynghorydd Cymraeg ffoniwch:
**0808 223 1144**

Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm
Galwadau am ddim

**citizensadvice.org.uk/energy**

Gallwch siarad â chynghorydd ynni ar-lein yn **citizensadvice.org.uk/energywebchat**

Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 5pm

## Gostwng eich biliau

Gallwch arbed arian ar eich biliau ynni drwy ddod o hyd i ffyrdd o wella effeithlonrwydd ynni eich cartref.

I gael gwybod mwy ewch i **citizensadvice.org.uk/saveenergy**



**Effeithlonrwydd ynni i berchnogion tai yn GOV.UK**

**gov.uk/improve-energy-efficiency**

Ffoniwch:
**0800 098 7950 (Lloegr yn unig)**

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm
Dydd Sadwrn, 9am i 12pm
Galwadau am ddim

**Nyth (Cymru yn unig)**

**nyth.llyw.cymru**

Ffoniwch:
**0808 808 2244**

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm
Galwadau am ddim

citizens advice

Lluniwyd gan Cyngor ar Bopeth a'i anfon atoch chi gan eich cyflenwr ynni i sicrhau eich bod yn deall eich hawliau yn y farchnad ynni. Ebrill 2023.

# Cysylltu â ni

Rydym eisiau helpu. Os oes gennych ymholiad am y daflen hon, neu unrhyw agwedd ar ein gwasanaeth, cysylltwch â ni.

**Llythyr**
ScottishPower, Customer Services
320 St. Vincent Street
Glasgow G2 5AD

**Gwefan**
scottishpower.co.uk/getintouch

## Anawsterau clyw neu leferydd?

Yn dibynnu ar eich anghenion, mae Relay UK yn cynnig amrywiaeth o offer a gwasanaethau sy'n gallu eich helpu i gysylltu â ni. Ewch i **relayuk.bt.com** i gael rhagor o wybodaeth.

## Cysylltiadau eraill defnyddiol

**Argyfyngau nwy (24 awr)**
0800 111 999

**Argyfyngau trydan (24 awr)**
Rhadffôn 105

Mae fersiynau Saesneg a phrint bras o'r daflen hon ar gael yn **scottishpower.co.uk/standards**

Rydym yn deall pwysigrwydd cadw eich manylion personol yn ddiogel. I gael gwybod mwy, ewch i **getsafeonline.org**

SCP6849 AUG23

ScottishPower